

## **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i ymrwymo i sicrhau ei fod yntau, ynghyd â'i swyddfa, yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u hamlinellwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016. Dyma grynodedb o sut mae'r Comisiynydd a'i swyddfa'n bwriadu cydymffurfio gyda'r Safonau a darparu cyfleoedd cyfartal i aelodau'r cyhoedd, rhanddeiliaid a staff i gyfathrebu gydag yntau a'i swyddfa un ai yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

### **Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

- Rydyn ni wedi darparu gwybodaeth i staff ynghylch ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydyn ni wedi sicrhau bod staff yn cynnig i bobl y cyfle i gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, oni bai eu bod yn gallu delio â nhw yn Gymraeg.
- Rydyn ni wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyrau ac ar e-byst, yn hysbysu aelodau'r cyhoedd bod modd iddyn nhw wneud cais am ohebiaeth yn y Gymraeg o hyn ymlaen.
- Rydyn ni wedi hysbysu staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob gwahoddiad i gyfarfod fod yn ddwyieithog, y dylid sicrhau bod cyfieithwyr ar y pryd yn cael eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl bod croeso iddyn nhw wneud eu cyfraniadau yn y Gymraeg.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog.
- Mae'r testun ar bob tudalen gwefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gael yn Gymraeg; mae pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gwbl weithredol; a dydy'r iaith Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan.
- Hysbyswyd y staff i gyd, pan fo Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol, na ddylen nhw drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac fe ddylai'r holl staff sicrhau, os ydy person yn cysylltu â'r swyddfa trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, bod y staff yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
- Rydyn ni'n sicrhau bod pob arwydd yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog a bod y Gymraeg yn cael ei gosod lle caiff ei darllen yn gyntaf.
- Gosodir arwyddion yn y prif dderbynfeydd yn datgan bod modd i bobl gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Fe hysbyswyd staff bod gofyn iddyn nhw gyfarch aelodau o'r cyhoedd i fannau cyhoeddus yn ddwyieithog.
- Mae'r holl hysbysiadau a hysbysebion yn ddwyieithog.
- Caiff pob ffurflen gais am grant a dderbynnir yn Gymraeg eu hateb yn Gymraeg ac fe gynhelir unrhyw gyfweiliadau sydd eu hangen trwy gyfrwng y Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd os oes angen).
- Ni fydd hunaniaeth corfforaethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Safonau Llunio Polisiâu**

- Hysbyswyd staff eu bod i ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu welliannau i bolisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan gaiff polisi newydd ei lunio, fe fyddwn yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Caiff hyn ei gyflawni trwy gyflwyno adran ar bolisiau ac adroddiadau eraill a fydd yn dangos pa fath o ystyriaethau a roddwyd i'r Gymraeg.
- Os comisiynir ymchwil sy'n bwriadu cynorthwyo gyda llunio polisiâu, fe fyddwn yn sicrhau bod yr ymchwil hwnnw'n ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi hwnnw fel na chaiff effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Bydd staff yn sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar bolisiau'n cynnig cyfle i bobl wneud sylw ar effeithiau unrhyw bolisiau newydd ar ddefnydd y Gymraeg.
- Fe wnawn ni ddiwygio ein Polisi Comisiynu er mwyn sicrhau ei fod yn datgan yn glir ein bod yn ystyried yr effeithiau, wrth wneud penderfyniadau ar ddyfarnu grantiau, y caiff dyfarnu'r grant ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

## **Safonau Gweithredu**

- Fe fyddwn yn cynhyrchu arweiniad ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i bwrpas hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg.
- Rydyn ni wedi cyflwyno proses AD lle byddwn yn gofyn i'r staff i gyd a ydyn nhw'n dymuno derbyn eu contractau cyflogaeth yn Gymraeg.
- Fe fyddwn yn gofyn i'r holl staff a ydyn nhw'n dymuno derbyn gohebiaeth papur yn ymwneud â'i gyflogaeth/chyflogaeth, a/neu ei anghenion hyfforddiant, ac sydd wedi'i gyfeirio'n bersonol ato fo/hi yn Gymraeg.
- Fe fyddwn yn gofyn i'r holl staff a ydyn nhw'n dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg ac fe wnawn ni ddarparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna ydy eu dymuniad.
- Fe fyddwn yn gofyn i'r holl staff a ydyn nhw'n dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi presenoldeb ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg.
- Fe ddarparwyd meddalwedd cyfrifiadurol Cymraeg (ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg) i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, os mai dyna oedd eu dymuniad.
- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu i bob aelod staff wneud cwynion yn Gymraeg, ac i ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdano fo neu amdani hi.
- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn caniatáu i holl aelodau staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn unrhyw broses disgyblaethol mewnol.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal asesiad o sgiliau Cymraeg staff y swyddfa trwy hunanasesiad.
- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn hyrwyddo'n weithredol cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr cyflogedig dderbyn cyrsiau Cymraeg.

- Rydyn ni wedi darparu geiriad i staff gael defnyddio ar eu llofnod e-bost, sy'n hysbysu pobl eu bod un ai'n rhugl yn y Gymraeg neu'n ddysgwyr.
- Rydyn ni wedi darparu geiriad i staff i'w ddefnyddio a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Cymraeg o'u manylion cyswllt ar negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Cymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu eraill nad ydyn nhw ar gael i ymateb i negeseuon e-bost.
- Pan fo Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn asesu anghenion ar gyfer swydd newydd, neu sy'n wag, mae'n asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg.
- Os ydyn ni'n categoreiddio swydd fel un lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu i'w dysgu, fe fyddwn yn nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd ac yn hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.
- Gellir cyflwyno pob cais am swydd yn Gymraeg, ac ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Medrwn gynnal unrhyw gyfweiliad swydd yn Gymraeg, os mai dyna ddymuniad yr ymgeisydd, heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

### **Cadw Cofnodion**

- Fe fyddwn yn cadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbynnir gynnon ni yn ymwneud â'n cydymffurfiant â'r Safonau ac yn adrodd yn ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol. Rydyn ni hefyd yn cadw copi o gwynion o'r fath, ac unrhyw gwynion eraill sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Fe fyddwn yn cadw cofnod o'r nifer o weithwyr cyflogedig sydd â sgiliau yn y Gymraeg trwy osod gwybodaeth ar ein systemau AD.
- Fe fyddwn yn cadw cofnod o'r camau a gymerwyd gynnon ni er mwyn cydymffurfio â'r safonau llunio polisïau y mae'n ddyletswydd arnon ni gydymffurfio â nhw.
- Fe fyddwn yn cadw cofnod, am bob blwyddyn ariannol, o'r aelodau staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi yn Gymraeg ac os darparwyd fersiwn Cymraeg o gwrs, canran o gyfanswm y staff sy'n mynychu'r cwrs a fynychodd y fersiwn hwnnw.
- Fe fyddwn yn cadw copi o bob asesiad a gynhelir gynnon ni mewn perthynas â'r sgiliau yn y Gymraeg mae'n bosib y byddai eu hangen mewn perthynas i swydd newydd neu swydd wag.